

www.cyngorllanelltyd.cymru

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanelltyd, Taicynhaeaf a Bontddu a gynhaliwyd ar
Zoom
Nos Fawrth, Mawrth 8, 2022 am 7:30yh o'r gloch.**

Presennol: Cyngorwyr: Simon Evans, Geraint Rowlands, Gareth Ellis, John Hughes, Elfed ap Gomer, Gethin Williams, Gwenan Owen. Hefyd Henry M. Edwards.

Cydymdeimlwyd â Gwenan Owen yn ei phrofedigaeth o golli ei thad..

1. Ymddiheuriadau: Llinos Williams a Cyng. Peredur Jenkins.

2. Datgan diddordeb:

Roedd Gwenan Owen yn datgan diddordeb ynglŷn ag Eitem 5.j.

3. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Chwefror 8, 2022

Cynigwyd y cofnodion gan John Hughes ac eilwyd gan Elfed ap Gomer.

4. Materion yn codi o'r cyfarfod Chwefror 8, 2022

Eitem 4. Eitem 11.g. Galwad ffôn (11/2/2022) gan yr Heddlu yn rhoi gwybod maent yn ymwybodol o'r beics modur yn defnyddio'r llwybr ac am y difrod maent yn eu hachosi. Mae'r Heddlu yn awgrymu galw nhw pryd mae'r beics ar y tir – rhif ffôn 07989168218.

Eitem 11.c.. Llythyr ateb (16/2/2022) oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi gwybod does dim yn bod gydag Afon Cwm Mynach. Wedi iddynt fod mewn cysylltiad gyda Coed Cadw ynglŷn â'r mater, cafwyd wybod bod y gwaith torri coed wedi darford ac mae pyllau dŵr wedi eu gosod ar gyfer unrhyw ddŵr ffo. Os mae dŵr budr yn cael ei weld iddynt ffonio Cyfoeth Naturiol Cymru rhif ffôn 0300 065 3000.

Llythyr (21/2/2022) oddi wrth Cyfoeth Naturiol Cymru yn rhoi gwybod Coed Cadw sy'n gyfrifol am y gwaith.

Anfonwyd y ddau lythyr i Elfed ap Gomer.

Eitem 4. Eitem 4. ac Eitem 11.b. Wedi'r cyfarfod cyhoeddus gyda Alba yn Neuadd Bontddu derbyniwyd galwad ffôn (17/2/2022) oddi wrth breswlydd y gymuned. Roedd y person yn dweud roedd un o gynrychiolwyr Alba yn anghwrtais, ac nid yw Alba yn parchu'r tir gyda phrofiad eu gwaith yn Iwerddon gyda thir yn cael ei gloddio ac yn gwneud dim i dacluso tir wedi gwaith.

Er y sylw negyddol, roedd barn roedd y cyfarfod yn effeithiol. Cafodd pawb gyfle i gael gwybodaeth roeddynt ei angen ar gynlluniau Alba ac yn fodlon gyda'u cynlluniau.

5. Materion Ariannol

a. Derbyniwyd (14/2/2022) £110 oddi wrth I.B. Williams a'i Fab at ail osod beddfaen ar y diweddar Mary Elinor Thurlow Hilton.

b. Llythyr (17/2/2022) oddi wrth Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd.

c. Llythyr (14/2/2022) oddi wrth Marie Curie yn diolch am ein rhodd £100.

d. Llythyr (16/2/2022) oddi wrth Hope House Tŷ Gobaith yn diolch am ein rhodd o £100.

dd. Llythyr (17/2/2022) oddi wrth Cyngor ar Bopeth Gwynedd yn diolch am ein rhodd o £200.

e. Llythyr (17/2/2022) oddi wrth Cylch Meithrin Dolgellau yn diolch am ein rhodd o £300.

f. Llythyr (18/2022) oddi wrth Neuadd Llanelltyd yn diolch am ein rhodd £600.

ff. Llythyr (10/2/2022) oddi wrth Cymdeithas y Dydd yn diolch am ein rhodd o £100.

g. Bil (20/2/2022) am £480 oddi wrth Richard Williams. £200 am drwsio'r to lloches fws Taicynhaef a £280 am wneud mainc bren newydd i gymryd lle'r fainc wreiddiol oedd wedi dirywio wrth Turnpike, Llanelltyd.

Penderfynwyd talu'r bil.

h. Llythyr (28/2/2022) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod beth maent yn eu gwneud. Amgáu mae ffurflen Aelodaeth yn gwahodd y Cyngor i adnewyddu ei aelodaeth am y cyfnod 2022 / 2023. Tâl Aelodaeth yw £100.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Penderfynwyd talu'r aelodaeth.

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION MAWRTH 8, 2022

i. Llythyr (24/2/2022) oddi wrth Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol Llywodraeth gyda'u Hadroddiad Blyneddol Chwefror 2022 ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-2023 sy'n weithredol o 1 Ebrill.

O'r adroddiad, Adran 13 sy'n berthnasol i gynghorau tref a chymuned.

1. Taliadau tuag at gostau a threuliau:

Rhaid i bob cyngor cymuned a thref sicrhau bod taliad o £150 y flwyddyn ar gael i'w haelodau fel cyfraniad at gostau a threuliau. Gall unigolyn wrthod derbyn y taliad £150 os ydynt yn dymuno a gwneud hynny trwy ysgrifennu'n bersonol at y swyddog priodol.

2. Ad-dalu costau teithio a chostau cynhaliaeth: Gall cyngorau dalu costau teithio pob aelod ar gyfer mynychu dyletswyddau cymeradwy, sef 45c y filltir.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Penderfynwyd anfon llythyr i'r aelodau yn holi os maent am wrthod y taliad £150.

j. Bil (3/3/2022) am £150 oddi wrth John Arfon Owen tuag at gladdu llwch ar gyfer gwasanaeth ar 1/3/2022.

Penderfynwyd talu'r bil.

1. Derbyniwyd (4/3/2022) £110 oddi wrth I.B. Williams a'i Fab tuag at ail osod beddfaen ar y diweddardd Martyn William Hill.

II. Llythyr (4/3/2022) oddi wrth Un Llais Cymru. Amgáu mae manylionn cyflog i glercod o Ebrill 1, 2021.

Cyflog presennol y Clerc yw £1,533.60 y flwyddyn, h.y. £10.65 x 12awr x 12mis. Mae'r cyflog ar bwynt SCP 8, £10.65 yr awr. Taliad misol i'r Clerc: £102.40; taliad misol i Cyllid a Thollau EM: £25.40.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

Penderfynwyd codi'r cyflog i £10.84 yr awr ar SCP 8. Bydd y cyflog yn £10.84 x 12awr x 12 mis = £1,560.96 ac i ddechrau o Ebrill 1, 2022. Bydd angen i E.W. Owen a'i Chwmni rhoi'r taliad misol fydd i'r Clerc, a Cyllid a Thollau EM.

m. Bil (1/3/2022) Treth Annomestig Cenedlaethol ar gyfer 2021/2022 tuag at Public Conveniences, Bontddu oddi wrth Cyngor Gwynedd. Does dim taliad am y cyfnod. Amgáu mae manylion y dreth am y cyfnod 2018/19 i 2021/22.

n. Balans yn y banc ar 28/2/2022: £10,889.23. (28/2/2021: £10,187.62).

6. Archwilio

7. Mynwent Llanelltyd

a. Cafwyd ymholiad (16/2/022) am ganiatâd i wasgaru gweddillion amlosgedig yn y fynwent. Wrth wneud ymoliadau â Dilwyn Rees, Trefnwr Angladdau ynglŷn â'r mater, cafwyd wybod ni chaniateir gwasgaru gweddillion mewn mynwent, mae yn angyfreithiol i wneud.

Awgrymu newid 'Rheolau Gweinyddu Mynwent Y Plwyf' i gynnwys rheol 'Ni chaniateir gwasgaru gweddillion amlosgedig yn y fynwent'.

Penderfynwyd i Elfed ap Gomer newid y Rheolau sydd ar ein gwefan i gynnwys y rheol 'Ni chaniateir gwasgaru gweddillion amlosgedig yn y fynwent'.

8. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Cais cynllunio NP5/65/123A. Diwygio Amod Rhif 2 o Ganiatâd Cynllunio NP5/65/123 dyddiedig 02/03/1992 ar gyfer dyluniad diwygiedig i'r annedd. Llain 2, Cae Coch, Llanelltyd.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (3/3/2022).

9. Gohebiaeth

a. Llythyr (8/2/2022) oddi wrth Dr Josephine Cock, Llanelltyd sydd angen gwybodaeth gymleth ar ansawdd yr aer a llygriad yr aer yn Gwynedd.

Awgrymwyd iddi wneud ymoliadau â Cyfoeth Naturiol Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, ac Adran Amgylchedd Cyngor Gwynedd.

b. Lythyr (9/2/2022) oddi wrth Un Llais Cymru gyda chopi o 'Cyngor newydd am y Cod Cefn Gwlad i reolwyr tir'.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

c. Anfonwyd (102/2022) cerdyn cydymdeilad i Gwenan Owen.

ch. Llythyr (10/2/2022) oddi wrth Swyddog Gwastraff ac Ailgylchu, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bod y biniau oedd wedi eu difrodi wedi cael eu newid am rhai newydd yn Cwm Hirgwm. (Gweler Eitem 11.a. yn gofnodion Ionawr 11, 2022).

d. Llythyr (23/2/2022) oddi wrth Gwasanaeth Cefn Gwlad, Cyngor Gwynedd yn cadarnhau fod gwaith ar Pont Ffira, Bontddu, o agor ffos a'r cylfat sydd yn croesi'r llwybr, wedi ei gwblhau. Gweler Cofnodion Tachwedd 9, 2021, eitem 11.c..

CYNGOR CYMUNED LLANELLYD, TAICYNHAEAF A BONTDDU
COFNODION MAWRTH 8, 2022

dd. Llythyr (28/2/2022) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am Gyfarfod Pwyllgor Ardal Meirionnydd bydd yn cael ei gynnal ar 9/3/2022 am 7.00yh ar Zoom. Siaradwr bydd Mr Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd. Amgáu mae Agenda'r cyfarfod, a Chofnodion cyfarfod 8/12/2021.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

10. Adroddiad Cyng. Peredur Jenkins

Doedd dim adroddiad.

11. Materion yr Aelodau

a. Penderfynwyd rhoi gwybod i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd am y gwrthwynebiad sydd am y conau sydd wedi eu gosod yn ddiweddar ar ffordd Hirgwm. Mae'r conau wedi cael eu gosod ar ymyl y ffordd yn gwneud hi'n anodd i gerbydau pasio ei gilydd, yn anodd i gerbydau mynd yn eu hôl lawr y rhiw, ac yn anoddach i reoli tyfiant llys. Does dim rheswm am y conau a ni chafodd y Cyngor Cymuned cwynion am yr angen am y conau. Mae'r Cyngor Cymuned yn dymuno Priffyrdd i symud y conau o'r safle.

b. Cytunwyd i'r Clerc mynychu cwrs Un Llais Cymru pan mae un ar gael.
